

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Questions to the Minister for Economic Development and Transport

4 Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Eraill
Questions to the Business Minister on her Other Responsibilities

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Busnes Craidd Fferyllfeydd Cymunedol The Core Business of Community Pharmacies

Q11 Kirsty Williams: What representations has the Minister made to get substance misuse treatment services incorporated into the core business of community pharmacies as part of their new contract? OAQ0109(SJR) *Transferred for written answer.*

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): I wrote twice last year to the Minister for Health and Social Services to clarify the existing funding and management arrangements and to seek advice on her plans and progress made to develop the arrangements for the new contracts.

C11 Kirsty Williams: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud er mwyn ymgorffori gwasanaethau trin problemau camddefnyddio sylweddau i fusnes craidd fferyllfeydd cymunedol fel rhan o'u contract newydd? OAQ0109(SJR) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Ysgrifennais ddwywaith y llynedd at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i egluro'r trefniadau presennol ar gyfer cyllido a rheoli, ac i geisio cyngor ar ei chynlluniau ac ar yr hyn a wnaed i ddatblygu'r trefniadau ar gyfer y contractau newydd.

*Atebwyd cwestiynau 12 i 15 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 12 to 15 answered in Plenary.*

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Amcan 1 yn y Gogledd Objective 1 in North Wales

C6 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Amcan 1 yng ngogledd Cymru?

Q6 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on Objective 1 in north Wales?

OAQ0087(EDT) [W]

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Mae £119.3 miliwn o grant Amcan 1 wedi ei ymrwymo i 200 o brosiectau lleol, ac mae'r buddsoddiadau yn y Gogledd—Ynys Môn, Conwy, sir Ddinbych a Gwynedd—gyfystyr â £285 miliwn. Yn ôl yr adroddiadau a gafwyd ganddynt, mae pob prosiect Amcan 1 yn y Gogledd wedi creu neu ddiogelu 22,500 o swyddi gros, mae 15,700 o fusnesau bach a chanolig wedi cael cymorth, 550 o fusnesau bach a chanolig wedi'u creu, a 29,700 o fuddiolwyr wedi cael cymorth.

*Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ0076(EDT), yn ôl.
Question 7, OAQ0076(EDT), withdrawn.*

OAQ0087(EDT) [W]

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): Some £119.3 million of Objective 1 grant is committed to 200 local projects, representing investments of £285 million in north Wales—Anglesey, Conwy, Denbighshire and Gwynedd. All Objective 1 projects in north Wales have reported the creation or safeguarding of 22,500 gross jobs, 15,700 SMEs assisted, 550 SMEs created, and 29,700 beneficiaries assisted.

Y Technium Modurol ar gyfer Llanelli The Technium Auto for Llanelli

Q8 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the auto Technium for Llanelli? OAQ0080(EDT)

Andrew Davies: Construction work is scheduled to start at the end of March, and is due to be marked with an official ceremony.

C8 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y technium modurol ar gyfer Llanelli? OAQ0080(EDT)

Andrew Davies: Bwriedir dechrau'r gwaith adeiladu ddiwedd mis Mawrth, a'r bwriad yw nodi hynny gyda seremoni swyddogol.

Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghymoedd y De Public Transport in the South Wales Valleys

Q9 Huw Lewis: Will the Minister make a statement on investment in public transport in the south Wales Valleys? OAQ0114(EDT)

Andrew Davies: In December, I announced an £8 billion, 15-year investment programme for transport with a substantial commitment to Valleys communities. This includes funding to improve the Merthyr to Cardiff rail service to half-hourly and continuing support for bus services. I am also investing some £50 million for additional rolling stock on the Valleys network, which will relieve congestion.

C9 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fuddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymoedd y De? OAQ0114(EDT)

Andrew Davies: Ym mis Rhagfyr, cyhoeddais raglen fuddsoddi 15 mlynedd gwerth £8 biliwn ar gyfer trafndiaeth gydag ymrwymiad sylweddol i gymunedau'r Cymoedd. Mae hyn yn cynnwys arian i wella'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Merthyr Tudful a Chaerdydd fel ei fod yn rhedeg bob hanner awr a chefnogaeth barhaus ar gyfer gwasanaethau bysiau. Yr wyf hefyd yn buddsoddi oddeutu £50 miliwn ar gyfer cerbydau ychwanegol ar rwydwaith y Cymoedd, a fydd yn lliniaru tagfeydd.

Adroddiad ar Hynt Amcan 1 Progress Report on Objective 1

Q10 Christine Gwyther: Will the Minister give a progress report on Objective 1? OAQ0103(EDT)

Andrew Davies: By 31 January 2005, the

C10 Christine Gwyther: A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt Amcan 1? OAQ0103(EDT)

Andrew Davies: Erbyn 31 Ionawr 2005, yr oedd

Objective 1 programme had reached the £1 billion grant commitment milestone, representing over £2.3 billion of total project investment in the area. Over 1,300 projects have reported the creation of some 38,000 gross new jobs and the safeguarding of over 45,600 gross jobs.

rhaglen Amcan 1 wedi cyrraedd carreg filltir, ac wedi ymrwymo £1 biliwn mewn grantiau, sy'n golygu bod cyfanswm o fwy na £2.3 biliwn wedi'i fuddsoddi gan y prosiect yn yr ardal. Mae mwy na 1,300 o brosiectau yn dweud iddynt greu cyfanswm o tua 38,000 o swyddi newydd a diogelu cyfanswm o fwy na 45,600 o swyddi.

Nifer y Twristiaid a Ymwelodd â Chymru y Llynedd **The Number of Tourists who Visited Wales Last Year**

Q11 Eleanor Burnham: Will the Minister statement on the number of tourists who visited Wales last year? OAQ0107(EDT)

C11 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y twristiaid a ymwelodd â Chymru y llynedd? OAQ0107(EDT)

Andrew Davies: Initial results from overseas surveys indicate that, in the first half of 2004, overseas visits to Wales were up 25 per cent on 2003, with spending up 22 per cent to £127 million. Final figures for 2004 are not available for the number of trips to Wales from the UK market.

Andrew Davies: Mae canlyniadau cyntaf arolygon tramor yn nodi bod nifer yr ymweliadau tramor â Chymru, yn hanner cyntaf 2004, 25 y cant yn uwch nag yn 2003, gyda'r gwariant 22 y cant yn uwch gan gyrraedd £127 miliwn. Nid yw ffigurau terfynol 2004 ar nifer yr ymweliadau o farchnad y DU â Chymru ar gael.

Y Strategaeth Cerdded a Seiclo **The Walking and Cycling Strategy**

Q12 Janet Davies: What discussions has the Minister had recently with relevant organisations on the walking and cycling strategy? OAQ0070(EDT)

C12 Janet Davies: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r cyrff perthnasol yn ddiweddar ynghylch y strategaeth cerdded a seiclo? OAQ0070(EDT)

Andrew Davies: I have not had discussions recently as my Deputy Minister chairs the walking and cycling forum for Wales. This includes 20 external organisations and advises on taking forward the strategy's action plan. The forum's next meeting is on 7 March.

Andrew Davies: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau yn ddiweddar gan mai fy Nirprwy Weinidog cadeirio'r fforwm cerdded a seiclo yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys 20 o gyrff allanol ac mae'n cynghori ar ddatblygu strategaeth y cynllun gweithredu. Cynhelir cyfarfod nesaf y fforwm ar 7 Mawrth.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ0131(EDT), yn ôl.
Question 13, OAQ0131(EDT), withdrawn.*

Rhwydwaith Ffyrdd y Canolbarth **The Road Network in Mid Wales**

Q14 Glyn Davies: What plans does the Minister have to improve the road network in mid Wales? OAQ0092(EDT)

C14 Glyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella rhwydwaith ffyrdd y Canolbarth? OAQ0092(EDT)

Andrew Davies: The revised trunk road programme, which I announced in December, includes a number of schemes to improve the network in mid Wales. We are also supporting the Ceredigion link road improvement, which will complete an enhanced north-south link from

Andrew Davies: Mae rhaglen cefnffyrdd ddiwygiedig, y cyhoeddais yn Rhagfyr, yn cynnwys nifer o gynlluniau i wella'r rhwydwaith yn y Canolbarth. Yr ydym hefyd yn cefnogi'r gwelliannau i ffordd gyswllt Ceredigion a fydd yn cwblhau cyswllt gwell rhwng y gogledd a'r de, o

Carmarthen to Synod Inn, improving access from Aberystwyth to the M4 corridor.

Gaerfyrddin i Synod Inn, gan wella mynediad o Aberystwyth i goridor yr M4.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ0124(EDT), yn ôl.
Question 15, OAQ0124(EDT), withdrawn.*

Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Eraill Questions to the Business Minister on her Other Responsibilities

Llywodraeth Agored Openness in Government

Q11 Mick Bates: What is the Assembly Government doing to encourage openness in government? OAQ0020(BM)

C11 Mick Bates: Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i annog llywodraeth agored? OAQ0020(BM)

The Business Minister (Jane Hutt): By applying the principles set out in the Assembly's Code of Practice on Public Access to Information, we are aiming to go beyond the requirements imposed by the Freedom of Information Act 2000 in order to maximise openness and build on the considerable progress that has already been made.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Wrth gymhwyso'r egwyddorion a nodir yng Nghod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth o eiddo'r Cynulliad, ein nod yw rhagori ar y gofynion a fynnir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 er mwyn bod mor agored â phosibl a chan ddatblygu'r cynnydd sylweddol a wnaed hyd yma.

Polisi Cyfle Cyfartal Llywodraeth Cynulliad Cymru The Equal Opportunities Policy of the Welsh Assembly Government

Q12 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on the equal opportunities policy of the Welsh Assembly Government? OAQ0001(BM)

C12 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi cyfle cyfartal Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0001(BM)

Jane Hutt: We are reviewing our equal opportunities policy. The new policy will provide greater clarity to communicate our policies and working practices in order to support the equality and diversity agenda. The revised policy will have a key role in mainstreaming equality and diversity.

Jane Hutt: Yr ydym yn adolygu ein polisi cyfle cyfartal. Bydd y polisi newydd yn fwy eglur er mwyn cyfleu ein polisiau a'n harferion gwaith er mwyn ategu'r agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd y polisi diwygiedig yn allweddol o ran prifffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cysylltiadau Hiliol yn Wrecsam Race Relations in Wrexham

Q13 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on race relations in Wrexham? OAQ0022(BM)

C13 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gysylltiadau hiliol yn Wrecsam? OAQ0022(BM)

Jane Hutt: I am committed to ensuring that good race relations are maintained in Wrexham and throughout Wales as a whole.

Jane Hutt: Yr wyf yn ymroi i sicrhau bod cysylltiadau hiliol da yn cael eu cynnal yn Wrecsam a ledled Cymru gyfan.

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd The Disability Discrimination Act

Q14 Rhodri Glyn Thomas: What discussions has the Minister held regarding the financial

C14 Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y gofynion

requirements of public bodies to implement the Disability Discrimination Act? OAQ0010(BM)

ariannol sydd ar gyrff cyhoeddus i weithredu'r Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd? OAQ0010(BM)

Jane Hutt: Responsibility for implementation of the Act is with the Department of Work and Pensions; the financial implications are not for the Assembly Government to consider. However, the Government sought to raise awareness of rights of access and the Act by funding conferences called 'Barriers Coming Down' held throughout 2002.

Jane Hutt: Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd; nid cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw ystyried y goblygiadau ariannol. Fodd bynnag, ceisiodd y Llywodraeth godi ymwybyddiaeth o hawliau mynediad a'r Ddeddf drwy ariannu cynadleddau o'r enw 'Chwalu'r Rhwystrau' a gynhaliwyd drwy gydol 2002.

Cyflog Cyfartal Equal Pay

Q15 John Griffiths: Will the Minister make a statement on progress in achieving equal pay in Wales? OAQ0005(BM)

C15 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hysp y gwaith o sicrhau cyflog cyfartal yng Nghymru? OAQ0005(BM)

Jane Hutt: As part of phase II of the 'Close the Pay Gap' campaign, the National Assembly has provided funding to the Trades Union Congress Wales. This funding has been used to employ a project worker to work directly with trade unions in workplaces in Wales in order to raise equal pay onto the bargaining agenda.

Jane Hutt: Fel rhan o gam II yr ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog', mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi darparu arian i Gyngres Undebau Llafur Cymru. Defnyddiwyd yr arian hwn i gyflogi gweithiwr prosiect i weithio'n uniongyrchol ag undebau llafur mewn gweithleoedd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyflog cyfartal ar yr agenda fargeinio.